

**Cofnodion o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun**  
**14 Mai 2018 yn Ffestri Capel Penuwch am 8 o'r gloch.**  
**Minutes of Llangeitho Community Council Annual General Meeting held on Monday, 14 May 2018, in Penuwch Chapel**  
**Vestry, at 8pm**

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerodd yr Is-gadeirydd i'r gadair a chroesawodd pawb i'r cyfarfod misol gan gyflwyno Mrs Dawn Miles, aelod o bwyllgor Neuadd Jiwbilŷ Llangeitho. Derbyniwyd adroddiad strwythurol ac ariannol o sefyllfa'r Neuadd Jiwbilŷ yn Llangeitho a soniwyd bod Cyngor Cymuned Llangeitho (Gwynfil) yn ymddiriedolwyr o'r Neuadd. Trafodwyd y sefyllfa yn gyffredinol a chefnogwyd y cais mewn egwyddor drwy gyuno i ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i'r pwyllgor gael ceisio am gymorth ariannol o ffynonellau eraill. Soniwyd am y cyfarfod cyhoeddus i 'Adfywio Tregaron' a gynhelir yn Nhregaron ar nos Iau 24 Mai 2018, lle gofynnwyd i'r Clerc anfon y poster a'r manylion ymlaen i Mrs Miles.

**DATGAN DIDDORDEB – Cyng Daniel Thomas**

*In the absence of the Chair, the Vice-Chair chaired the meeting and welcomed everyone. She introduced Mrs Dawn Miles, a committee member of Jubilee Hall, Llangeitho, who gave a report on the current structure of the building of the Hall and a financial report. It was noted that members of Llangeitho Community Council (Gwynfil) were trustees of the Hall. The current situation was discussed in general and it was agreed to support their application, in principle, by writing a letter of support to the committee who is seeking financial assistance from other sources. The public meeting 'Revitalising Tregaron' was mentioned, to be held in Tregaron on Thursday, 24 May 2018. The clerk was asked to send a poster of that event on to Mrs Miles.*

**DECLARING AN INTEREST – Cllr Daniel Thomas**

**Presennol/Present**

Cyng Rhian Turner (Gadair / Chair), Gwilym Evans, Gerwyn Ebenezer, Myrddin James, Gwenfair Owen, Dafydd Morse, Daniel Thomas, Eirian Jones, John Evans a PCSO John Evans.

**Ymddiheuriadau/Apologies** – Cyng Paul Rooke, Beryl Evans, Emyr Jones a Cyng Rhodri Evans

**Cyfrifon Blynyddol/Annual Accounts**

Cylchredwyd copiâu o'r fantolen flynyddol a chymeradwywyd yn gywir ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng John Evans. Arwyddwyd y ffurflenni blynyddol gan y Cadeirydd.

*Copies of the annual balance sheet were distributed and agreed to be correct on the proposition of Cllr Dafydd Morse and this was seconded by Cllr John Evans. The annual forms were signed off by the Chair.*

**Ethol Cadeirydd/Election of Chairperson**

Enwebwyd Cyng Rhian Turner fel Cadeirydd ar gynnig Cyng John Evans ac eiliwyd gan Cyng Daniel Thomas.

*Cllr Rhian Turner was nominated as the new Chair by Cllr John Evans and this was seconded by Cllr Daniel Thomas.*

**Ethol Is-Gadeirydd/Election of Vice-Chairperson**

Enwebwyd Cyng Gwenfair Owen fel Is-gadeirydd ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng Daniel Thomas.

*Cllr Gwenfair Owen was nominated as the Vice-Chair by Cllr Dafydd Morse and this was seconded by Cllr Daniel Thomas.*

**Ethol Archwiliwr Mewnol/Election of Internal Auditor**

Enwebwyd Mr Gareth Jones, Tregaron yn Archwiliwr Mewnol ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse.

*Mr Gareth Jones, Tregaron, was nominated as Internal Auditor by Cllr Gwilym Evans and this was seconded by Cllr Dafydd Morse.*

**Ethol Swyddog Diogelu Data/Election of Data Protection Officer**

Gan fod y drefn newydd am reoliadau Gwarchod Data Cyffredinol mor aneglur ni phenodwyd Swyddog Diogelu Data ond cytunwyd i ofyn i Cyng Beryl Evans fynychu'r cyfarfod nesaf o Un Llais Cymru i gael mwy o wybodaeth ac i adrodd i'r cyfarfod nesaf.

Terfynwyd y cyfarfod cyffredinol blynyddol a pharhawyd efo cyfarfod misol o Gyngor Cymuned Llangeitho.

*As the new procedures for general data protection rules are so unclear, it was agreed not to appoint a Data Protection Officer, but it was agreed to ask Cllr Beryl Evans to attend the next meeting of One Voice Wales to get more information and to report back to the next community council meeting.*

*The Annual General Meeting was terminated and continued as a monthly meeting of Llangeitho Community Council.*

**Datgan Diddordeb/Declaration of Interest** – Neb / No one

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting**

*Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans. Cllr Dafydd Morse proposed accepting the minutes of the last meeting, and this was seconded by Cllr Gwilym Evans.*

**Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes**

- *Gan nad oedd y paent i adfywio'r arosfan bws yn Stags Head ac i baentio wal yr Ywen wedi'u harchebu eto, penderfynwyd i gyfarfod i asesu'r gwaith yn gyntaf. Trefnwyd i rai o'r aelodau gwrdd ar nos Fawrth 15 Mai 2018 am 8yh.*
- *As no paint had already been ordered for the bus shelter in Stags Head and the yew tree wall on Llangeitho Square, it was agreed to meet to assess the work. It was arranged that some members meet on Tuesday evening, 15 May 2018, at 8pm.*
- *Yn absenoldeb Cyng Rhodri Evans ni dderbyniwyd diweddariad ar sefyllfa'r dwr yn cronni rhwng Parciau Gwynion, Rhydypany, Llangeitho a Fronfelen.*
- *In the absence of Cllr Rhodri Evans, no update was received with regard to water accumulating between Parciau Gwynion, Rhydypany, Llangeitho and Fronfelen.*
- *Llythyr o gadarnhad wedi'u dderbyn oddi wrth Mr S R Halsall, Prif Weithredwr y Comisiwn Ffiniau i dderbyn y pecyn o lythyron o'r gymuned ynghyd â'r llythyr o'r cynghorwyr, cler c i anfon copi ymlaen i Cyng Dafydd Morse er gwybodaeth.*
- *Confirmatory letter received from Mr S R Halsall, Chief Executive of the Boundaries Commission, noting that he had received the package of letters from the community as well as the letter from the community councillors; clerk to send a copy of his letter on to Cllr Dafydd Morse, for his information.*
- *Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth Haydn Lewis, Ceidwad Hawliau Tramwy a Chefn Gwlad am bwy sydd â chyfrifoldeb pe tai damwain yn digwydd ar y bont bren yn Rhydypany.*
- *No response received from Haydn Lewis, Keeper of Rural Rights of Way, with regard to who would be responsible were an accident to happen on the wooden bridge at Rhydypany.*
- *Diolchwyd i Cyng Daniel Thomas am ymgymryd â'r gwaith o baentio arwydd bys yng nghae gyferbyn â'r Ysgol.*
- *Cllr Daniel Thomas was thanked for taking on the task of painting the old fingerpost sign in the field opposite the primary school in Llangeitho.*
- *Dim gwaith wedi'u wneud ar y culvert oedd wedi rhoi fewn ar yr ochr dde wrth droi lan o Parcrhydderch, Llangeitho, SY25 6QG lan am Bronaeron, Llangeitho, SY25 6QQ hyd yma.*
- *No work has been done so far on the culvert which has given way on the right hand side as one turns up from Parcrhydderch, Llangeitho, SY25 6QG towards Bronaeron, Llangeitho, SY25 6QQ.*
- *Dim cynigion i'w hanfon ymlaen i gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Un Llais Cymru i'w trafod.*
- *No proposals to be discussed at the AGM of One Voice Wales were suggested.*
- *Tyllau ar ben lôn Dolaeron wedi'u llenwi.*
- *Holes at the top of Dolaeron lane have been filled.*
- *Trafodwyd y mater a oedd angen cymeradwyo'r cofnodion Saesneg cyn iddynt gael ei llwytho ar wefan y Cyngor Cymuned ond cytunwyd nad oedd angen ei chymeradwyo unwaith fyddai Cyng Eirian Jones wedi'u cyfieithu.*
- *It was discussed whether there was a need to approve the English translation of the Community Council's Welsh-language Minutes before they were uploaded onto the website. It was agreed that there was no need to approve the work once Cllr Eirian Jones had translated them.*

*Yn absenoldeb Cyng Rhodri Evans, ni dderbyniwyd diweddariad i'r canlynol:*

*In the absence of Cllr Rhodri Evans, there were no updates about the following:*

- *Angen sylw ar y drain agored lawr heol Parcrhydderch.*
- *Open drain on Parcrhydderch's road needs attention.*
- *Soniwyd fod Gareth Davies, Parcrhydderch wedi rhoi darn o dir i Gyngor Sir Ceredigion ond nad yw'r Cyngor Sir wedi dychwelyd i darmacio yn iawn.*

- *It was noted that Gareth Davies, Parcrhydderch, has given a piece of land to Ceredigion County Council; the Council has yet to tarmac it properly.*
- *Culvert rhwng Fronheulog a Glandwr wedi blocio efo cerrig ac angen sylw.*
- *Culvert between Fronheulog and Glandwr is blocked with stones and needs attention.*
- *Nifer fawr o dyllau yn y ffordd lawr o Stags Head heibio'r ddwy Fferm Derlwyn lawr i Cnwc y Barcud, hefyd soniwyd am y dwr oedd yn cronni ar yr un ffordd angen sylw.*
- *Many potholes on the road from Stags Head past the two Derlwyn farms and down to Cnwc y Barcud; also it was mentioned that water was accumulating on the same road and this needed attention.*
- *Angen glanhau'r cwteri sydd ar y rhiw Llidiart Maen Gwyn am dop y ffordd.*
- *Gulleys need to be cleared on Llidiart Maen Gwyn hill towards the top of the road.*

### **Cyflog a chostau'r Clerc/Clerk's wages & costs**

Cytunwyd, yn ôl yr arfer i godi cyflog y clercc 5% i £1,215.44 ar gynnig Cyng John Evans ac eiliwyd gan Cyng Myrddin James.

Cyflwynwyd costau'r clercc am 2017-18 i fod yn £142.60 a chytunwyd i'w talu ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng Eirian Jones.

*It was agreed, as per usual, to increase the clerk's salary by 5% to £1,215.44; this was proposed by Cllr John Evans and seconded by Cllr Myrddin James.*

*The clerk's costs for 2017-18 were presented, £142.60. It was agreed on the proposition of Cllr Dafydd Morse and seconded by Cllr Eirian Jones that the amount should be paid.*

### **Gohebiaeth/Correspondence**

Derbyniwyd gwahoddiad i lansiad unigryw Cymru360, digwyddiad beicio mynydd traws gwlad newydd sy'n dod i Gymru ym mis Gorffennaf 2019 a gynhelir ar 26 o Fai 2018, rhwng 3yp a 4.30yp yn Ystafell Seddon, Yr Hen Goleg, Aberystwyth – Dim gweithrediad.

*Invitation received to the launch of Cymru360, a new cross-country mountain biking event which is coming to Wales in July 2019. The launch to be held on 26 May 2018, between 3pm and 4.30pm, in the Seddon Room, Old College, Aberystwyth – No action.*

### **Cyfrifon/Accounts**

- *Cyflog y Clerc / Clerk's salary (2 mis / months) £192.92*
- *Aswiriant Zurich Insurance £651.11*
- *Praesept / Precept £1,529.04 (llai £304.30 costau'r etholiad / less £304.30 for election costs) wedi'u dderbyn drwy BACS / received through BACS.*

*Cynnig / Proposed: Cyng John Evans*

*Eiliwyd / Seconded: Cyng Myrddin James*

### **Cymorth Ariannol/Financial Assistance**

Clerc i arddangos posteri yn gwahodd ceisiadau am gymorth ariannol.

*Clerk to display posters inviting applications for financial assistance.*

### **Cyngor Sir Ceredigion County Council**

- *Derbyniwyd cais cynllunio am 'Construction of stable block and associated change of use from agricultural to equestrian to include regularisation of existing highway access and adjacent hedge bank. (Stable block to be used for a mixture of domestic private use and for livery purposes) oddi wrth Mr Elwyn Jones ar safle daear Helen House, Stags Head, Llangeitho, Tregaron. Trafodwyd y cais yn fanwl a chytunwyd i'r cais ar gynnig Cyng Myrddin James ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans. Roedd yna nifer o gonserns am y cais yma i'r effaith fyddai'r symudiad traffig yn effeithio'r trigolion lleol.*
- *The following planning application was received: 'Construction of stable block and associated change of use from agricultural to equestrian to include regularisation of existing highway access and adjacent hedge bank. (Stable block to be used for a mixture of domestic private use and for livery purposes) from Mr Elwyn Jones, at the location of Helen House, Stags Head, Llangeitho, Tregaron. The application was discussed thoroughly and it was agreed on the proposition of Cllr Myrddin James and seconded by Cllr Gwilym Evans. There were, however, a number of concerns about the application, including whether the movement of traffic would affect local residents.*
- *Derbyniwyd rhestr o'r newidiadau arfaethedig i'r cyfyngiadau parcio yn Llangeitho oddi amgylch yr Ysgol Gynradd, a derbyniwyd y newidiadau ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng Gerwyn Ebenezer.*

- *A list of proposed changes to parking restrictions in Llangeitho in the vicinity of the primary school has been received. These changes were accepted on the proposition of Cllr Dafydd Morse and seconded by Cllr Gerwyn Ebenezer.*
- *Llythyr wedi'u dderbyn am y newidiadau a drafodwyd yn Gyngor Sir Ceredigion am 'Berchnogion Cŵn Anghyfrifol', cytunwyd mewn egwyddor i'r papur ac yn cydnabod bod yna broblem dros Geredigion ond ddim yn gwybod a fyddai'r cynigion yma yn gweithio.*
- *Letter received about the changes discussed by Ceredigion County Council with regard to irresponsible dog owners. It was agreed, in principle, to the paper, acknowledging that there was such a problem throughout Ceredigion and wondering whether these proposals would work.*
- *Cylchredwyd 'Polisi drafft Gorfodi Corfforaethol' a greuwyd gan Gyngor Sir Ceredigion a chytunwyd i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.*
- *Draft policy regarding corporation enforcement, which has been created by Ceredigion County Council, has been distributed. It was agreed to discuss it at the next meeting.*

### **Un Llais Cymru/One Voice Wales**

- *Clerc i ofyn i Cyng Beryl O Evans fynychu'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ardal os yn bosibl gan fydd Rheoli Data Cyffredinol siŵr o gael ei drafod.*
- *Clerk to ask Cllr Beryl O Evans to attend the next area meeting if possible, as general data protection is bound to be discussed.*

### **Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

- *Cynhelir cyfarfod Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn Felinfach ar nos Lun 30 Ebrill 2018 lle mynychodd y clerc a'r Cadeirydd y cyfarfod. Am fwy o fanylion am yr ymgynghoriad gellir derbyn pecyn gwybodaeth o'r clerc.*
- *Hywel Dda Health Board met at Felinfach on Monday, 30 April 2018. The clerk and chair attended the meeting. For more information about the consultation, see the clerk for an information pack.*
- *Cynhelir cyfarfod agored i drafod 'Adfywio Tregaron' ar nos Iau 24 Mai 2018 am 7yh a gofynnir i rai o'r Cynghorwyr fynychu os byddant yn medru.*
- *A meeting about revitalising Tregaron is to be held on Thursday, 24 May 2018, at 7pm, and councillors are requested to attend if they can.*
- *Trafodwyd y nifer o fobl sy'n byw mewn carafanau oddi amgylch Ceredigion.*
- *The number of people living in caravans around Ceredigion was discussed.*
- *Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth PCSO John Evans am ddiwyddiadau yn y gymuned o fewn y mis diwethaf.*
- *A verbal report about incidents in the community in the past month was given by PCSO John Evans.*

### **Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date and venue of next meeting**

*Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Jiwbilî, Llangeitho ar 4ydd o Fehefin am 8yh.  
The next meeting will be held in Jubilee Hall, Llangeitho on 4 June at 8pm.*